

RHO AMSER I DDARLLEN

10 munud y dydd

Gall darllen gyda'ch plentyn wneud **gwahaniaeth mawr!**
Os ydych chi gartre, yn yr ysgol neu allan . . .
Rho amser i ddarllen!



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Mae plant sy'n darllen y tu allan i'r dosbarth **13 gwaith** yn fwy tebygol o ddarllen uwchlaw'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed.

Mewn dim ond 10 munud y dydd gallwch chi:

- ehangu gwybodaeth
- cynyddu geirfa
- gwella sillafu

Awgrymiadau darllen gyda phlant:

- **Gadewch i'r plant ddarllen cynhwysion** ryseitiau pan fyddwch chi'n coginio. Mae'n ffordd dda i adael iddyn nhw ddarllen darnau byr o destun.
- **Canu gyda'ch gilydd** - Hwiangerddi i'r rhai iau a chaneuon yn y siartiau ar YouTube i'r rhai hŷn.
- **Deunydd darllen** sy'n canolbwyntio ar unrhyw ddiddordeb sydd gan eich plentyn, er enghraifft efallai y byddai plentyn sydd wrth ei fodd ag anifeiliaid yn hoffi darllen Wwsh ar y Brwsh gan Julia Donaldson.
- **Helpu eich plentyn i ddarllen** yw un o'r pethau gorau y gallwch ei wneud i'ch plentyn. Mae cannoedd o e-lyfrau ac e-gylchgronau ar gael i'w lawrlwytho am ddim.



Gweithgareddau yn y llyfrgell:

- Gweithdai cerdd
- Sesiynau adrodd stori
- Helpu plant â'u gwaith cartref



Awgrymiadau darllen gyda phlant o bob oed:

- Bydd darllen gyda'ch gilydd yn dod â chi yn nes at eich gilydd. Beth am drïo llyfr dwyieithog.
- Mae darllen yn y tywyllwch gyda thortsh yn hwyl.
- Does dim rhaid i chi ddarllen llyfrau yn unig. Beth am ddarllen cylchgronau, gwefannau a llyfrau coginio.
- Gadewch iddyn nhw ddewis beth i'w ddarllen drwy roi taleb llyfrau neu danysgrifiad i gylchgrawn fel arheg.

Mae angen eich help chi:

Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau yr hoffech eu rhannu anfonwch e-bost i literacy@cymru.gsi.gov.uk neu ewch i'n tudalen Facebook – Rho amser i ddarllen.

I gael rhagor o awgrymiadau am sut i annog plant i ddarllen ewch i: **Facebook – Rho amser i ddarllen**

